# Is-grŵp Sgiliau a Chyflogaeth Cyrchfan Conwy

# Cylch Gorchwyl

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Nigel Treacy | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |
| Glenn Evans | Gwesty'r Royal Oak (Betws-y-coed) |
| Graham Paul Jones | Grŵp Llandrillo Menai |
| Joe Swiffen | Anturiaethau Mynydd Sleddog Cyf |
| Bryn Jones | Cwrs Golff y Fedwen Arian |
| Gareth Ffowcs Williams | We Cycle |
| Liam Donnelly | Gwesty'r Belmont a Gwesty Llandudno Bay |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws-y-coed |
| Maria McLean | Rydal Penrhos |
| Tracey Woodbine | Woody's Luxury Glamping |
| Tansy Rogerson, Cadeirydd yr Is-grŵp | Armadillo Events |
| Cai Ross | Paysanne |
| Berin Jones | Cymdeithas Lletygarwch Llandudno |
| Kimberley Edmunds | The Jester's Tower |
| Rheolwr Busnes a Thwristiaeth, i'w gadarnhau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Amanda Ballance | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jules Arrowsmith | Parc Fferm Manorafon |

I'w gwahodd – cynrychiolydd Canolfan Byd Gwaith

I'w gwahodd – cynrychiolydd o dîm cyflogadwyedd Cyngor Conwy

I'w gwahodd – cynrychiolydd o wasanaeth addysg y Cyngor

**Swyddogaethau**

Bydd y Grŵp Sgiliau a Chyflogaeth yn cyflawni'r swyddogaethau a ganlyn:

- Adnabod heriau ym maes Sgiliau a Chyflogaeth gydol y sector yng Nghonwy
- Gweithio â'r academi/rhwydwaith doniau y mae Coleg Llandrillo'n ei arwain fel rhan o'r Fargen Twf a dylanwadu ar ei ddatblygiad
- Ystyried llunio rhestr o arferion da ar gyfer llwybrau gyrfa mewn sectorau twristiaeth
- Ystyried llunio rhestr o arferion da wrth farchnata a hyrwyddo twristiaeth fel gyrfa
- Datblygu cynllun gweithredu er mwyn adnabod y camau gweithredu sy'n ofynnol

- Cyfrannu at waith y grŵp Cynllun Rheoli Cyrchfan wrth ddiwygio'r strategaeth twristiaeth
- Adnabod cyfleoedd i gefnogi ysgolion/colegau lleol a sefydliadau academaidd eraill a gweithio â hwy i greu cyfleoedd am waith yn y sector i fyfyrwyr.

**Strwythur**

- Bydd y grŵp yn penodi cadeirydd: penodwyd (Tansy Rogerson)
- Bydd y Cadeirydd yn aelod o Fwrdd Cyrchfan Conwy a bydd yn sicrhau y trosglwyddir negeseuon yn esmwyth rhwng y Grŵp Sgiliau a'r Bwrdd
- Enwebodd yr aelodau eu hunain pan hysbysebwyd y ffaith bod Cyrchfan Conwy'n ailstrwythuro. Gall aelodau newydd ymuno â'r grŵp, fodd bynnag, drwy gytundeb â'r Cadeirydd a Rheolwr Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Mae'r grŵp yn ddigon hyblyg i ganiatáu i bobl nad ydynt yn aelodau o'r grŵp fod yn bresennol mewn cyfarfodydd, os bernir bod eu cyfraniad neu bresenoldeb yn fuddiol. Drwy gytundeb o flaen llaw gan y Cadeirydd a Rheolwr Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy'n darparu gwasanaethau ysgrifenyddol ar gyfer y cyfarfodydd (cofnodi camau gweithredu allweddol, anfon gwahoddiadau i gyfarfodydd, cyhoeddi cofnodion ar y wefan twristiaeth)

**Perthynas â grwpiau eraill**

- Mae'n bwysig fod pob un o'r pump o is-grwpiau Cyrchfan Conwy'n rhannu gwybodaeth â'i gilydd am y gwaith sy'n mynd rhagddo. Cedwir cofnodion yr holl gyfarfodydd ar wefan twristiaeth y Cyngor Sir (porth busnes)

**Cyllid**

- Pe dymuna'r grŵp ymgeisio am grant i gynnal ei waith, byddai angen gwneud hynny drwy'r Bwrdd ac ymgeisio yn enw Partneriaeth Cyrchfan Conwy

**Cynnal busnes**

- Bydd y grŵp yn gweithredu ar sail consensws. Os cyfyd anghytundeb bydd y Cadeirydd, gan arfer pob dull priodol, yn ceisio datrys unrhyw anghydfod yn y grŵp gyda chymorth Rheolwr Twristiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**Cyfarfodydd**

- Bydd yr is-grŵp sgiliau a chyflogaeth yn pennu trefn ei gyfarfodydd fel y cyflawnir gwaith y grŵp yn briodol ac yn brydlon. Disgwylir iddo gwrdd yn ôl y drefn ganlynol. Er hwylustod yr aelodau, bydd y Bartneriaeth yn pennu rhaglen gwaith i'r dyfodol sy'n cynnwys dyddiadau cyfarfodydd, eu hamser a'u lleoliad (neu ddolenni ar gyfer ymuno ar-lein), a hynny chwe mis o flaen llaw fel rheol.

- Y Cadeirydd a fydd yn cynnull cyfarfodydd fel rheol, ar y cyd â’r Gwasanaeth Ysgrifenyddol.
- Bydd y Cadeirydd a’r Gwasanaeth Ysgrifenyddol yn llunio rhaglen a gaiff ei dosbarthu cyn y cyfarfod. Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol hefyd ynghlwm wrth y rhaglen.
- Anfonir unrhyw bapurau ychwanegol gyda’r rhaglen a’r cofnodion.
- Gofynnir am gadw’r holl drafodaethau yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol, er mwyn creu awyrgylch lle mae pawb yn rhydd i leisio’u barn yn ddi-flewyn-ar-dafod.
- Cynhelir pob gweithgaredd mewn modd agored a thryloyw ar sail cyfathrebu ac ymgynghori, gan gynnwys hyrwyddo gwaith y grŵp a rhannu gwybodaeth â’r gymuned ehangach.
- Os dymuna unrhyw aelod o’r is-grŵp ymddiswyddo o’r Grŵp Sgiliau mae’n rhaid iddynt gynnig ymddiswyddo yn ysgrifenedig drwy lythyr at Gadeirydd yr is-grŵp, ac os dymuna Gadeirydd y Grŵp Sgiliau ymddiswyddo yna mae’n rhaid iddynt gynnig ymddiswyddo yn ysgrifenedig drwy lythyr at Gadeirydd Cyrchfan Conwy. Er y gall yr aelod sy’n ymddiswyddo argymell rhywun arall yn eu lle, mae’n rhaid cael cymeradwyaeth y Grŵp o flaen llaw cyn y gellir caniatáu i’r unigolyn dan sylw fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.